AAA i ADY

Byddwn yn defnyddio'r term 'anghenion dysgu ychwanegol' yn hytrach nag 'anghenion addysgol arbennig'. Bydd gan bob ysgol Gydlynydd Anghenion Dysgu Ychwanegol (CADY).

Mae gan blant neu bobl ifanc angen dysgu ychwanegol pan:

- fod ganddynt anhawster neu anabledd sylweddol sy'n golygu bod angen cefnogaeth barhaus a thargedig arnynt;
- eu bod yn ei chael yn fwy anodd dysgu na phlant neu bobl ifanc o'r un oedran yn Genedlaethol;
- fod ganddynt anabledd sy'n golygu na allant ddefnyddio'u hysgol neu eu coleg yn lleol.



Ysgol Gymraeg Caerffili

CADY — Mrs Cerys Williams

02920 852531

Cred mewn system gynhwysol a theg lle gellir diwallu'r anghenion i gyd i sicrhau plant a ohobl ifanc sy'n llwyddiannus, yn annibynnol ac yn wydn.

ANGHENION DYSGU YCHWANEGOL
TÎM RHANBARTHOL CADY

Am fwy o wybodaeth, a fyddech gystal â chysylltu â Chydlynydd Anghenion Dysgu Ychwanegol yr Ysgol (CADY)

Eich Plentyn a Deddf ADY 2018

Mae Llywodraeth Cymru wedi adolygu'r prosesau a'r systemau sy'n ymwneud ag Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY). Bydd deddfwriaeth newydd ar waith o fis Medi 2021, a fydd yn cael ei rhoi ar waith yn llawn o fis Medi 2024. Mae yna newidiadau a allai effeithio arnoch chi a'ch plentyn.

0-25 Oed

Bydd gan blant neu bobl ifanc ag ADY un system o gefnogaeth rhwng 0 a 25 oed.

Datrys Anghytundeb a Hawliau Apêl


Lle bynnag bo hynny'n bosibl, ymdrinnir ag anghytundebau cyn gynted â phosibl gyda'r ysgol a'r bobl allweddol dan sylw.

Apêl yw pan ofynnwch am newid penderfyniad.

Bydd grwpiau cymorth annibynnol yn gallu gwrando a helpu os oes anghytundebau na ellir eu datrys. Mae gan blant, pobl ifanc, rhieni a gofalwyr yr hawl i apelio yn erbyn penderfyniadau a wneir gan yr ysgol a'r Awdurdod Lleol ynghylch anghenion dysgu ychwanegol neu ddarpariaeth ddysgu ychwanegol y plentyn neu'r person ifanc.

Cyfranogiad Plant a Phobl Ifanc

Bydd yr hyn y mae plant a phobl ifanc yn ei feddwl, ei deimlo ac yr hoffent ei gael yn ganolog i'n cynllunio. Bydd y plant a'r bobl ifanc yn rhan o ddatblygu eu Cynlluniau Datblygu Unigol.



Cydweithrediad

Bydd meddyliau, teimladau a dymuniadau rhieni a gofalwyr yn cael eu casglu fel proses barhaus. Lle bo hynny'n berthnasol, bydd ysgolion yn gweithio gydag iechyd, y gwasanaethau cymdeithasol ac unrhyw un arall sy'n cefnogi'r plentyn neu'r person ifanc




Cynllun Unedig (Cynllun Datblygu Unigol)

Bydd plant neu bobl ifanc y nodwyd bod ganddynt ADY ac sydd angen darpariaeth ddysgu ychwanegol yn cael Cynllun Datblygu Unigol (CDU) i ddangos eu hanghenion a'r gefnogaeth sydd yn ei lle.

Mae darpariaeth ddysgu ychwanegol yn gefnogaeth sy'n ychwanegol at yr hyn a ddarperir i fwyafrif y plant neu'r bobl ifanc o'r un oed.

Bydd y CDU yn cynnwys cyngor ystod o weithwyr proffesiynol sy'n cefnogi'r plentyn neu'r person ifanc (lle bo hynny'n berthnasol).

Adolygir CDUiau yn flynyddol neu pan fydd unrhyw beth o bwys yn newid i'r plentyn neu'r person ifanc.



Am fwy o wybodaeth, a fyddech gystal â chysylltu â Chydlynydd Anghenion Dysgu Ychwanegol yr Ysgol